# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 27 Ebrill 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwr:- Gwen Lloyd.

Estynodd y Cadeirydd croeso i pawb i'r cyfarfod, gan mai yma oedd cyfarfod olaf Cyng John Pugh Jones, Cyng Ann Williams a'r Cynghorydd Sir Gwilym Fychan, Cychwynwyd y cyfarfod gyda te a chacenau. Cyflwynodd y Cadeirydd, Cyng Gwenfair Davies, tystysgrif i Cyng Gwilym Fychan am ei wasanaeth dros trigolion yr ardal. Yn ei eiriau ffarwel, cyfeiriodd Gwilym at ei uchafbwyntiau fel Cynghorwr yn cynrychioli trigolion yr ardal. Eglurodd ei fod wedi bod yn Cynghorwr ar Cyngor Sir Powys ers 1995, ond cyn hynny, roedd yn cynrychioli Cadfarch ar y cyn Cyngor Dosbarth Maldwyn ers 1976. Yn dilyn gofynwyd i Gwilym cyflwyno tystysgrif i Cyng John Pughe Jones sydd wedi bod ar Cyngor Cymuned Glantwymyn ers y cychwyn yn 1974, ac hefyd i Cyng Ann Williams sydd wedi bod ar y Cyngor Cymuned ers 1997.

**17.23. Cofnodion cyfarfod 30 Mawrth 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.24. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.51.4. Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa a ddarllenodd e-bost yr oedd wedi derbyn gan Paul Wenban, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru. Cytunwyd cadw llygad ar y sefyllfa.
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf.
16.73.10. Problemau gyda gordyfiant coed ar y ffordd fawr ger Cwmlline. Ymddiheurodd y Clerc ei fod dim eto wedi clywed yn ol gan swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
16.74.3. Problemau gyda golau stryd ddim yn gweithio yn Nhalywern. Cadarnhaodd Cyng Geraint Wigley fod y goleuadau yn dal i angen sylw.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa a darllenodd detholiad o fanylion e-bost gan Steve Wilson, Dwr Cymru. Cytunwyd cadw llygad ar y datblygiadau.
17.20.9. Cynllun gan Cyngor Sir Powys i codi sbwriel dros cyfnod o phedwar diwrnod pob wythnos. Darllenodd y Clerc e-bost yn esbonio fod y cynllun yma wedi cael ei gohirio am y tro.
17.21.1. Etholiad Mis Mai 2017. Cadarnhaodd y Clerc mi fydd ddim angen etholiad i Gyngor Cymuned Glantwymyn. Mi fydd Mr Iwan Pughe Jones ym cymeryd sedd ei dad, Cyng John Pughe Jones, yn cynrychioli Ward Darowen ac mi fydd Mr Aeron Pughe yn llenwi sedd Cyng Ann Williams yn cynrychioli Ward Cemaes.
17.22.1. Problemau gyda llwybr llithrig ger y cylchfan yng Nglantwymyn. Ymddiheurodd y Clerc fod y sefyllfa yma ddim eto wedi cael sylw.
17.22.6. Cau cangen Machynlleth y Banc Nat West. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r cyfarfod cyhoeddus yn Y Plas Machynlleth ar 18 Ebrill 2017. Eglurodd fod yn glir erbyn hyn nid yw'r Banc Nat West yn mynd i newid ei meddwl ar y penderfyniad yma.

**17.25. Cynllunio.**
Dim.

**17.26. Eitemau i'w talu.**
26.1. Taliad i Gloversure am cynnal y Gwefan. Cytunwyd taliad o £24-00.
26.2. Cais am arian gan Mr Stephen Tudor ar rhan Capel Sama, Cwmlline, am gyfraniad tuag at torri gwair yn y mynwent. Cytunwyd talu £200-00.
26.3. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd hefyd talu £200-00 tuag at costau torri gwair ym mynwent Eglwys St. Tydecho yng Nghemaes, mynwent y Capel MC yng Nghemaes ac hefyd mynwent y Capel Bedyddwyr Talywern.

**17.27. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
27.1. Llywodraethwyr. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod y sefyllfa ariannol dal yn anodd ond yn well nac yr oedd. Mae yna newidiadau yn y staff yn Ysgol Glantwymyn, ond mae'r ysgol yn parhau i berfformio'n dda. Dymunwyd y Llywodraethwyr diolch i Cyng Gwilym Fychan am eu wasanaeth ac yn ei geiriau ffarwel bu Gwilym yn cyfeiro at y poen wrth sefylu'r federasiwn. Er hyn, yr oedd wedi bod yn pwysig gwneud hyn i sicrhau dyfodol y tri ysgol.
27.2. Forwm Cleifion. Rhoddodd Cyng Gwenfair Davies crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf ynglyn a faterion iechyd yn yr ardal. Ychwanegodd Cyng Ann Williams fod amheuon wedi codi ynglyn a'r system newydd yng Nghanolfan Iechyd Glantwymyn oherwydd nid yw'n bosib gofyn am "repeat prescriptions" dros y ffon yn rhagor. Cytunodd Cyng John Pughe Jones fod y newid yma ddim yn dderbyniol i thrigolion hyn yr ardal. Cytunwyd ysgrifennu unwaith eto i'r Canolfan Iechyd am y sefyllfa ac hefyd am y problemau sydd yn parhau ynglyn a cael apwyntiad. Cyfeiriodd y Clerc i sefyllfa ym Machynlleth lle bod dim ambiwlans ar gael i helpu chwaraewr pel droed oedd wedi cael anaf ar Cae Glas Machynlleth. Cytunwyd ysgrifennu at y Gwasanaeth Ambiwlans am pryderon y Cynghorwyr am y sefyllfa yma.

**17.28. Gohebiaeth.**
28.1. Llythr gan Russell George AC, ynglyn y sefyllfa diweddaraf gyda'r ffordd osgoi newydd yn y Drenewydd.
28.2. Llythr gan Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, gyda agenda i gyfarfod rhanbarthol Un Llais Cymru. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi mynychu'r cyfarfod a chafwyd esboniad o'r sefyllfa gyda Cyngor Cymuned Trefeglwys.
28.3. Llythr gan Mr Edward Breese ar rhan Gronfa Mynwent Capel MC Cemaes yn diolch am y cyfraniad arian tuag at cynnal y mynwent.
28.4. Llythr gan cwmni I B Williams a'i Fab yn gofyn am caniatad i osod carreg ar bedd y diweddar Cyng Hugh Jones, Brynmelin. Cytunwyd rhoi caniatad am y garreg.
28.5. E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cau'r ffordd yn Abercegir yn ystod Mis Ebrill. Cadarnhaodd Cyng Gwilym Fychan fod y gwaith wedi gorffen.
28.6. E-bost gan Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn a Canllaw'r Cynghorydd Da.
28.7. E-bost gan Sue Packer, Cae Post, ynglyn a cynnig gwasanaeth ailgylchu plastig meddal. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i gofyn iddynt gweithio gyda Cae Post i cynnig gwasanaeth ailgylchu plastig meddal i'r cyhoedd.
28.8. E-bost gan Wendi Patience, Un Llais Cymru, ynglyn a fanylion cwrs i Gynghorwyr newydd. Cytunwyd danfon y manylion ymlaen i Cyng Gareth Wyn Jones, Mr Iwan Pughe Jones a Mr Aeron Pughe.
28.9. E-bost gan Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn a chyfle i gynnig symudiadau i Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru.
28.10. E-bost gan Anthony Barrett, Swyddfa Archwiliad Cymru ynglyn ag archwiliad 2015/16.
28.11. E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cau'r ffordd rhwng Talywern a Melinbyrhedin yn ystod Misoedd Mai, Mehefin a Gorffenaf.

28.12. E-bost gan Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gyda manylion grantiau ar gael i Cymunedau. Ychwanegodd Cyng Gwilym Fychan fod Dafydd Llywelyn yn siaradwr wych a chynigiodd Cyng John Pughe Jones i ofyn iddo ddod i siarad gyda'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd rhoi gwahoddiad iddo ddod i Glantwymyn ac hefyd cynnig gwahoddiad i Gynghorwyr Cadfarch a Llanbrynmair ymuno yn y cyfarfod.
28.13. E-bost gan Russell George AM gyda newyddion Mis Ebrill.
28.14. Cylchgrawn "Ein Bro", gyda newyddion Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth, rhifyn Pasg 2017.

**17.29. Unrhyw fater arall.**
29.1. Problemau gyda tyllau ar ffordd Cwm Ffrydlan. Eglurodd Cyng Huw Williams fod yna tyllau pobman ar y ffordd i fyny Cwm Ffrydlan.
29.2. Problemau gyda sbwriel ar gwaelod ffordd Cefncoch, Glantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna problemau gyda'r sefyllfa codi sbwriel ar gwaelod ffordd Cefncoch. Mae'r bagiau sydd yn cael eu gadael yma yn cael eu rhwygo ac yn creu llanast. Cytunwyd mi fydd Cyng Paul Hughes yn gyrru lluniau i'r Clerc iddo gallu dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
29.3. Arwydd cyflymder 30myh wedi torri ger Llanwrin. Eglurodd Cyng William N Owen fod yr arwydd cyflymder 30myh wrth mynd i fewn i Lanwrin o gyfeiriad Glantwymyn wedi plygu a torri. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
29.4. Problem gyda uchder y coed ar ffordd Llanwrin. Eglurodd Cyng William N Owen fod yna problem gyda uchder y coed ar ffordd Llanwrin ger Hendreseifion. Mae'r coed yn rhy isel ac yn creu problemau i loriau uchel. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
29.5. Fens y rheilffordd yn Commins Coch wedi torri. Eglurodd Cyng John Pughe Jones fod fens y rheilffordd wedi torri cyferbyn y troiad i Ddarowen yn Commins Coch. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw Network Rail.
29.6. Cyflwr y ffordd heibio Brynffynnon yn Darowen. Eglurodd Cyng Geraint Wigley fod cyflwr y ffordd sydd yn arwain i lawr heibio Tan-y-bryn a Bronffynnon mewn cyflwr gwael. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
29.7. Goleuadau traffig ar bont y rheilffordd yn Commins Coch. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod yna pryder am yr amser hir mae'r goleuadau traffig wedi bod ar bont y rheilffordd yn Commins Coch a fod lleoliad y goleuadau yma yn creu sefyllfa peryg. Cytunwyd ysgrifennu at Network Rail am y sefyllfa.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 18 Mai 2017.**
**Mi fydd hwn hefyd yn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned newydd.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 29 Mehefin 2017.**